

Adders are Amazing! Gwiberod Gwych!

12. GWIBEROD NATURIOIOL GREFFTUS

CYFLWYNIAD

Ffordd wych o gael plant ac oedolion i ymddiddori yn yr hyn sydd o'u cwmpas yw eu cael i gymryd rhan mewn gweithgareddau celf naturiol. Weithiau, caiff hyn ei addysgu fel rhan o waith Ysgol y Goedwig, ac mae'n dod yn fwyfwy poblogaidd. Mae nadroedd yn benthyg eu hunain yn arbennig o dda i'r gweithgaredd hwn gan eu bod yn hawdd i bobl o bob oed eu creu! Os ydych chi wedi eich lleoli yn agos at goedwig, beth am roi tro ar wiberod coed clai? Traeth tywodlyd gerllaw? Beth am gael cystadleuaeth gwiberod tywod neu gael y grŵp cyfan i greu cerflun tywod anferth o wiber? Neu gallech greu patrwm gwiber allan o blanhigion a cherrig yr ydych yn dod o hyd iddynt gerllaw - mae 'na lond lle o bosibiliadau, felly chwiliwch i weld beth sydd ar gael, ac ewch ati i greu!

DEFNYDDIAU:

- Awyr agored!
- Clai teracota (os nad oes clai naturiol yn y pridd)

GWNEWCH!

1 Er mwyn gwneud gwiberod coed, chwiliwch am goeden neu foncyff a gwthiwch lond llaw o glai arno i'r arwyneb. Defnyddiwch eich bysedd i'w fowldio a'i lyfnhau, cyn defnyddio brigau i greu cynllun gwiber ar yr arwyneb. Neu efallai y gallech greu model 3D!



2 Os ydych yn gallu mynd i'r traeth ar gyfer eich gweithgareddau, beth am greu gwiber yn y tywod? Palwch y tywod a chreu twmpath i greu corff y neidr, ac yna addurnwch gyda phethau sydd ar hyd y traeth.

